# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

24/03/2023

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron /o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Gwener, 31 Mawrth 2023 am 1.30 pm i drafod y materion canlynol:**

**1. Gweddi**

**2. Ymddiheuriadau**

**3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny (Tudalennau 3 - 6)**

**4. Croeso**

**5. Gohebiaeth**

**6. Cyflwyniad am addysgu Addysg Grefyddol a Chrefydd Gwerthoedd a Moeseg yn Ysgol Uwchradd Aberaeron gan Nia Wyn Jones , Pennaeth Adran AG/CGM**

**7. Diweddariad cenedlaethol**

**8. Cais am eitemau i gyfarfod tymor yr haf**

**9. Unrhyw Fater Arall**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG)**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

Cofnodion Cyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL YNG NGHEREDIGION** a gynhaliwyd trwy gynadledda ar **Ddydd Gwener, 16 Rhagfyr 2022**

**YN BRESENNOL:**
Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion: Y Cynghorwyr Ifan Davies, Keith Evans, Keith Henson a John Roberts

Yn cynrychioli Cymdeithas Athrawon: Miss Joyce Howells (Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau) (Cadeirydd) Mrs Alwen Roberts (UCAC)

Enwadau Crefyddol: Yr Athro Densil Morgan, Undeb Bedyddwyr Cymru
Anna Uruska- – Yr Eglwys Gatholig,

Aelodau Cyfetholedig:

Yn cynrychioli'r Sector Cynradd:

Hefyd yn bresennol: Mrs Mary Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion Gwasanaethau Ysgolion, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd a
Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(1:00pm- 2:30pm)

1 **Gweddïau**
Dechreuodd y cyfarfod gyda'r Cynghorydd Keith Evans yn arwain y Pwyllgor mewn gweddi.

2 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd yr Athro John Tudno Williams, y Parch Mark Ansell a'r Athro Catrin Williams am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

3 **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
CYTUNWYD cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2022 fel rhai cywir.

**Materion sy'n codi**
Dim.

4 **Croesawu aelodau newydd ac adolygu cyfrifoldebau'r cyngor**
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr newydd i'r cyfarfod a oedd wedi'u penodi ar y Pwyllgor ers etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022. Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol - Gwella Ysgolion Gwasanaethau Ysgolion gyflwyniad i'r Aelodau ar rôl y CYSAG.

**5 Aelodaeth**

CYTUNWYD:
(i) Gofynnir i Mr Lyndon Lloyd MBE ymuno â'r pwyllgor fel Aelod cyfetholedig gan ei fod yn aelod o'r blaen yn ei rôl fel cyn-Gynghorydd Sir;
(ii) ceisir cynrychiolydd o'r sector cynradd i gymryd lle Mr Eirwyn Griffiths;
(iii) cysylltir â Ms Noha Haroun i gynrychioli'r enwad Mwslemaidd, nodwyd ei bod yn gweithio yn Ysgol Gymunedol Plascrug;
(iv) y cysylltir â Ms Medi James, Tal-y-bont i gynrychioli'r Crynwyr; a
(v) gofynnir i Mr Colin Patridge roi ei sgiliau, ei brofiadau a'i rinweddau i'r Pwyllgor eu hystyried gan ei fod yn dymuno dod yn aelod yn cynrychioli'r Dyneiddwyr.

**6 Gohebiaeth**

Wedi'i thrafod o dan eitem 5, Aelodaeth.

**7 Adroddiad Blynyddol a Maes Llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yr awdurdod lleol i'w cymeradwyo**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Blynyddol a Maes Llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yr awdurdod lleol.Dywedwyd gan y Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion yn unol â gofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru, fod Addysg Grefyddol bellach yn cael ei hadnabod fel 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Gyda chreu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r rhwymedigaeth i roi canllawiau ychwanegol ynglŷn ag agweddau penodol ar y cwricwlwm, roedd ychwanegiadau a diweddariadau pellach wedi'u gwneud i ganllawiau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru gan gynnwys ychwanegiadau mewn perthynas â'r canllawiau o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Roedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg ac astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, tra bod ganddynt eu corff ar wahân eu hunain o wybodaeth a sgiliau.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dal i gael eu pennu'n lleol ac felly, yn ogystal â rhoi sylw i ofynion Canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb, rhaid i holl ysgolion Awdurdod Lleol Ceredigion roi sylw i Faes Llafur Cytunedig Ceredigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, wrth gynllunio eu cwricwlwm.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw monitro darpariaeth statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a chafodd ei gefnogi i wneud hyn gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Ceredigion ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Roedd yn ofynnol yn gyfreithiol i bob awdurdod lleol sefydlu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig sy'n gorfod paratoi maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w fabwysiadu gan yr awdurdod lleol.

Mabwysiadwyd Canllawiau Statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb fel Maes Llafur Cytunedig newydd Ceredigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Fawrth y 7fed, 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan Gynhadledd y Maes Llafur Cytunedig ar Fawrth y 3ydd, 2022. Ni fwriadwyd i'r Maes Llafur Cytunedig hwn fod yn gynllun gwaith. Roedd yn rhoi fframwaith lle gallai pob ysgol gynllunio ei chwricwlwm lleol ei hun orau sy'n cynnwys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir roi sylw i'r maes llafur cytunedig, gan gynnwys mewn ysgolion o gymeriad crefyddol wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

CYTUNWYD mabwysiadu'r ddogfen fel y'i cyflwynwyd a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

Diolchwyd hefyd i'r Rheolwr Corfforaethol – Gwella Ysgolion, Gwasanaethau Ysgolion am ei holl waith yn llunio'r ddau adroddiad.

**8 Crynodeb o'r newid yn y cwricwlwm cenedlaethol**

CYTUNWYD nodi'r diweddariad a roddwyd a phwysleisio'r angen bod deunydd Addysg Grefyddol Cymraeg ar gael i addysgu'r cwricwlwm newydd, gan nad oedd hyn yn wir pan newidiwyd y cwricwlwm cenedlaethol o'r blaen.

**9 Diweddariad Cenedlaethol**

Rhoddodd y Cynghorydd Keith Henson ddiweddariad ar gyfarfod CCYSAGauC a dywedodd ei fod wedi rhoi gwybodaeth i'r trefnydd fod TEAMS bellach yn darparu cyfleuster cyfieithu, gan na chynhaliwyd y cyfarfod yn ddwyieithog.

Byddai eu cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 21 Mawrth 2023.

**10 Cyflwyniad ar addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Rhoddodd Miss Nerys Parry, Pennaeth Ysgol Gynradd Llangwyryfon gyflwyniad i'r Aelodau ar addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr ysgol. Diolchodd yr aelodau iddi am fynychu ac am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth.

11. **Unrhyw Fater Arall**

CYTUNWYD y cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener, 31 Mawrth 2023 am 1:30pm.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yng Ngheredigion (CYSAG) a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol